 

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

ATODLEN 6

LESOEDD

**RHAN 5**

CYFRIFO’R DRETH SYDD I’W CHODI

*Y rhent perthnasol*

36 (1) Ym mharagraffau 34 a 35—

(a) ystyr “y rhent perthnasol” yw—

(i) y rhent blynyddol mewn perthynas â’r trafodiad o dan sylw, neu

(ii) os yw’r trafodiad hwnnw yn un o nifer o drafodiadau cysylltiol y mae’r gydnabyddiaeth drethadwy ar eu cyfer yn rhent neu’n cynnwys rhent, cyfanswm y rhenti blynyddol mewn perthynas â’r holl drafodiadau hynny;

(b) ystyr “y swm penodedig” yw swm o rent perthnasol a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau.

(2) Yn is-baragraff (1)(a) ystyr “y rhent blynyddol” yw—

(a) y rhent blynyddol cyfartalog yn ystod cyfnod y les, neu

(b) os yw—

(i) symiau gwahanol o rent yn daladwy ar gyfer gwahanol rannau o’r cyfnod, a

(ii) y symiau hynny (neu unrhyw un neu ragor ohonynt) yn rhai y gellir eu canfod ar y dyddiad y mae’r trafodiad yn cael effaith,

y rhent blynyddol cyfartalog yn ystod y cyfnod y mae’r rhent uchaf y gellir ei ganfod yn daladwy.